# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 24AIN CHWEFROR, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 16 Chwefror 2026)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

### AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Arwyn Herald Roberts
Olaf Cai Larsen
Sian Williams
[Sedd Wag]
Edgar Wyn Owen
Ioan Thomas
Beca Roberts
[Sedd Wag]

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Anne Lloyd-Jones
Eryl Jones-Williams
Dewi Owen

## Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys, ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 04 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

**5. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR** 9 - 12

I nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**6. CALENDR PWYLLGORAU 2026/27** 13 - 15

Argymhell y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27 i'r Cyngor Llawn ei fabwsiadu.

**7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 16 - 20

I gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad.

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 04/11/2025**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd-Jones (Cadeirydd), Annwen Hughes, Arwyn Herald Roberts, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ioan Thomas, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Beca Roberts, Cai Larsen, Sian Williams, Stephen Churchman, Anwen Jane Davies

**Swyddogion yn bresennol:**

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Mari Edwards (Rheolwr Dysgu a Datblygu) Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau), a Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol).

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Ni nodwyd unrhyw faterion brys.

4. **COFNODION**

   Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2025, fel rhai cywir.

5. **ADRODDIAD DRAFFT COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL I GYNGHORWYR AR GYFER 2026/27**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith. Esboniwyd mai hwn yw'r adroddiad cyntaf gan Gomisiwn Democratiaeth Ffiniau Cymru sydd bellach yn gyfrifol am osod lefel y gydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr Cymru. Tynnwyd sylw at y prif faterion yn yr adroddiad gan nodi bod amryw o egwyddorion newydd gan y Comisiwn yn cael eu gynnwys yn yr adroddiad. Rhoddwyd trosolwg o

brif flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y dyfodol, gan nodi'r gwaith sydd ar y gweill a'r hyn sydd dan ystyriaeth.

Amlinellwyd yr argymelliadau ar gyfer blwyddyn Ariannol 2026-27 ac esboniwyd bod cyfle i ymateb i argymhellion yr adroddiad drafft erbyn yr 18fed o Dachwedd, 2025. Cadarnhawyd bydd newidiadau mawr i'r fframwaith unwaith bob tymor etholiadol gyda newidiadau llai yn digwydd yn flynyddol. Nodwyd bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn 2026-27, gan nodi bydd cynnydd o 6.4% i dal aelodau, wrth ddod a chyflog blynyddol sylfaenol bob cynghorydd i £21,044.00. Adroddwyd bod y Comisiwn yn bwriadu edrych ar y berthynas rhwng cyflogau Cynghorwyr a'r arolwg blynyddol o oriau ac enillion Cymru gan ystyried a'i dyma'r sail cywir wrth wneud penderfyniadau i'r dyfodol.

Cadarnhawyd bod Aelodau'r Cyngor yn cael eu talu ar raddfa o oriau gwaith cyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mynegwyd pryder gan rai Aelodau am bresenoldeb Aelodau mewn pwyllgorau a chyfarfodydd y Cyngor. Mewn ymateb i hyn, cadarnhawyd bod rheol yn dynodi bod rhaid i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd bob chwe mis. Atgoffwyd Aelodau bod presenoldeb Cynghorwyr wrth fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau yn wybodaeth gyhoeddus ar wefan y Cyngor. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor hwn ymafael a'r mater wrth adnabod a chysylltu â'r aelodau sydd â lefel presenoldeb isel i gynnig cefnogaeth ac i atgoffa'r aelodau o'r disgwyliadau wrth iddynt fod yn aelod o'r Pwyllgorau. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y byddai yn ychwanegu nodyn atgoffa yn dynodi'r sail cyfwerth â 3 diwrnod gwaith wrth ohebu ar benderfyniad terfynol ar raddfa cyflog i Aelodau ar gyfer 2026/27.

Mynegwyd pryderon pellach fod rhai seddi gwag ar bwyllgorau yn parhau i fod ers peth amser. Soniodd Aelod bod angen cydnabod cyfrifoldebau ac ystyried sefyllfaoedd personol yr holl aelodau, gan nodi fod hyn yn holl bwysig os yw'r Cyngor yn ymrwymedig i gael amrywiaeth o aelodau. Anogwyd aelodau i lenwi'r seddi gwag er mwyn sicrhau cyfraniad llawn ym materion democratiaeth yng Nghyngor Gwynedd. Gofynnodd aelod a yw'n bosib y gall seddi gwag grŵp gwleidyddol gael eu cynnig i'r naill grŵp os yw'r grŵp yn cael trafferth yn llenwi'r seddi. Nodwyd y byddai hyn yn effeithio ar y cydbwysedd gwleidyddol ond byddai yn bosib wrth fynd a'r penderfyniad trwy'r Cyngor Llawn os yw'r pwyllgor yn dymuno newid. Cadarnhawyd y byddai'r tîm gwasanaethau democratiaeth yn gohebu unwaith yn rhagor a'r arweinyddion grŵp ar ôl yr is-etholiad yn ward Felinheli a'r Bethel.

Mewn ymateb i sylw ynghylch hygyrchedd manylion cyswllt Cynghorwyr Gwynedd, cadarnhawyd bod cyfeiriadau e-byst Cynghorwyr wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cadarnhawyd bod cyfeiriadau e-byst cyffredinol hefyd ar gael i'r cyhoedd gysylltu os oes angen. Atgoffwyd hefyd bod modd cysylltu trwy Galw Gwynedd os oes angen i aelod o'r cyhoedd gysylltu ag aelod penodol. Nodwyd y gobeithir bod y Cyngor yn darparu sawl ffordd o gysylltu â'r aelodau, yn unol â'r rheoliadau perthnasol a'r mesurau diogelwch. Nododd Aelod fod cyfarwyddyd clir i Gynghorwyr ystyried eu sefyllfa yn ddwys cyn cyhoeddi eu manylion cyswllt personol gan yr Heddlu fel rhan o hyfforddiant Ymgyrch Ford.

Manylwyd ar yr argymhellion yn yr adroddiad ar gyfer Aelodau Cyfetholedig ac aelodau lleyg. Y cyntaf yw gofyn i'r comisiwn i bwysleisio'r angen i ddefnyddio'r gyfradd fesul awr i ddangos fod Cynghorau Sir yn ddarbodus yn ariannol ac yn talu'n

deg am y gwaith sy'n cael ei gyflawni. Argymhellwyd hefyd fod y comisiwn yn edrych ar y cyfraddau o ran taliadau i aelodau lleyg a cyfetholedig gan nodi dylai cydnabyddiaeth ariannol i'r Aelodau hyn hefyd gynyddu yn flynyddol gan ei bod yn anodd denu Aelodau lleyg i gyflawni gwaith hynod bwysig. Nodwyd fod argymhelliad fod y comisiwn yn gwneud yn glir pa gamau a ddylid eu cymryd os na yw aelod yn dymuno derbyn tal am eu gwaith. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â thaliad aelodau lleyg a cyfetholedig, cadarnhawyd bod yr aelodau yn cael eu talu fesul awr gan gynnwys oriau paratoi.

Diolchwyd am yr adroddiad a chytunwyd ag argymhellion yr adroddiad. Nodwyd y dylid annog Cynghorwyr cymuned i hawlio'r tal sy'n ddyledus iddynt am eu gwaith yn y gymuned. Mynegwyd bod llawer o gostau cudd i Gynghorwyr cymuned felly ni ddylid cymryd eu gwaith yn ganiataol. Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod ysgogiad ariannol yn ymwneud a'r rôl er mwyn annog aelodau newydd i gymryd y rôl wrth i gynghorwyr cymuned ymddeol. Soniwyd bod cynghorwyr cymuned yn werthfawr iawn ac yn hanfodol i ffyniant dyfodol cymunedau Gwynedd. Cytunwyd y byddai cymal yn cael ei ychwanegu at yr argymhelliad i hyrwyddo tal cynghorwyr cymuned a'u hannog i'w hawlio. Cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus i dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad ar yr amod bod cymal i annog cynghorau cymuned i gymryd eu tal yn cael ei ychwanegu.**

**6. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR YMESTYN Y DDYLETSWYDD AR AWDURDODAU LLEOL I DDARLLEDU CYFARFODYDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democratiaeth.

Eglurwyd bod y Gwasanaeth eisoes yn darparu gwasanaeth gwe ddarlledu i gyfarfodydd y Cyngor Llawn, Cabinet, Cynllunio a Phwyllgor Craffu. Esboniwyd bod hyn eisoes yn mynd tu hwnt i'r gofyn statudol, sydd yn nodi bod angen gwe- ddarlledu cyfarfodydd Cyngor Llawn yn unig. Eglurwyd fod yr ymgynghoriad yn awgrymu ymestyn y gofyn i we ddarlledu i gynnwys y pwyllgor safonau, pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, Pwyllgorau Trwyddedu a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ychwanegol i'r pwyllgorau a nodwyd uchod. Nodwyd bydd goblygiadau o ran adnoddau a chostau os penderfynir mabwysiadu'r cynnig gan y bydd angen ehangu darpariaeth adnoddau. Eglurwyd byddai'r offer hefyd angen ei uwchraddio er mwyn gwella darpariaeth y gwe ddarlledu os yw'r angen yn codi i gynyddu defnydd ohono. Esboniwyd y cytunir a'r cynnig mewn egwyddor ond bod angen bod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau costau a staffio. Croesawyd sylwadau gan aelodau.

Diolchwyd i staff Gwasanaethau Democratiaeth am eu gwaith. Mynegwyd y dylid ceisio adnabod bob cyfle i annog diddordeb a chyfraniad y cyhoedd yng ngwaith llywodraeth leol. Nodwyd bod darpariaeth gwe ddarlledu yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i waith pwysig y Cynghorwyr ac yn rhoi blas o'r penderfyniadau mae'r Aelodau yn gyfrifol am eu gwneud. Nododd Aelod bod darpariaeth gwe ddarlledu

hefyd yn fodd effeithiol o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i ddefnydd yng ngwaith llywodraeth leol. Cytunwyd bod costau staffio ac adnoddau yn parhau i fod y rhwystr mwyaf, ac felly cytunwyd y dylid derbyn yr adroddiad a'r ymateb drafft.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad a'r ymateb drafft.**

## 7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu. Rhoddwyd trosolwg o flaenoriaethau'r adran wrth barhau i ymateb i ganlyniadau'r holiadur Anghenion Dysgu a Datblygu. Eglurwyd bod y rhaglen hyfforddiant diweddaraf ar gael i aelodau ac yn datblygu yn barhaus. Cadarnhawyd bydd y rhaglen yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen trwy ymgynghori gyda Phenaethiaid Adrannau a Swyddogion yn ogystal â chynnwys teitlau ar gais Aelodau. Croesawyd awgrymiadau am anghenion hyfforddiant ychwanegol ar gais Aelodau trwy ffurf holiadur neu'r Swyddog Datblygu aelodau. Cadarnhawyd y byddai'r adran yn penodi Swyddog Datblygu Aelodau newydd yn fuan.

Manylwyd ar yr 8 Maes Craidd sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Aelodau. Esboniwyd bod darpariaeth y cyrsiau craidd ar gael ar lein i aelodau gael mynediad iddynt ar unrhyw adeg a chroesawyd i aelodau  gysylltu ar unrhyw bryd os oes unrhyw drafferthion. Nodwyd bod 12 aelod wedi cwblhau pob cwrs hyfforddiant a chadarnhawyd bod 6 aelod heb gwblhau dim un o'r modiwlau. Mynegwyd siom bod 6 aelod heb gwblhau dim o'r hyfforddiant, yn enwedig y maes Cod Ymddygiad. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cwblhau'r cyrsiau craidd, a bod y rhain yn allweddol i'w rôl fel Cynghorwyr. Bu pwyslais arbennig ar bwysigrwydd y cyrsiau Cod Ymddygiad, Rhiantu Corfforaethol a Thrais yn erbyn Menywod.

Mewn ymateb i'r pryderon, cadarnhawyd bod anogaeth gyson i Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant craidd, gan gynnwys nodiadau atgoffa rheolaidd gan y Swyddog Datblygu Aelodau. Nodwyd bod Arweinyddion y Grwpiau gwleidyddol yn annog ac atgoffa Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant yn rheolaidd mewn cyfarfodydd grŵp. Ymhelaethwyd bod darpariaeth y cyrsiau gan y gwasanaeth  Dysgu a Datblygu yn hygyrch wrth iddynt fod ar gael ar-lein i'w gwblhau ar unrhyw bryd. Ystyriwyd addasu teitl y meysydd craidd i nodi eu bod yn feysydd mandadol er mwyn annog mwy o aelodau i'w cwblhau. Eglurwyd bod y nifer o gyrsiau gwblhawyd gan aelodau bellach yn wybodaeth gyhoeddus ar wefan y Cyngor.

Nodwyd bod amryw o gyrsiau datblygiad personol ar gael bellach i'r holl aelodau, sydd yn gyfle iddynt adlewyrchu ar eu rôl ac ystyried unrhyw feysydd o ddiddordeb iddynt yr hoffent eu datblygu. Nodwyd bod posib llunio Rhaglen Ddatblygu Bersonol i gwrdd â'u hanghenion. Esboniwyd bod nifer o aelodau cabinet wedi mynychu'r rhain a'u bod bellach ar gael i'r holl aelodau.

Manylwyd ar ddatblygiad Ymgyrch Ford gan Heddlu Gogledd Cymru a gafodd ei gyflwyno trwy'r Protocol Plismona Amddiffyn Democratiaeth. Nodwyd bod sesiynau briffio ar ddiogelwch ar gael i Aelodau  sy'n rhoi cyngor ar ddiogelwch personol.

Cynigwyd sesiynau pellach  i Aelodau cyn diwedd y flwyddyn gan annog  aelodau i gysylltu â'r gwasanaeth er mwyn nodi pa ddyddiad sydd yn gyfleus  ganddynt i gwblhau'r hyfforddiant.

Diolchwyd am yr adroddiad a diolchwyd i'r staff am eu gwaith wrth roi'r adnoddau at ei gilydd. Canmolwyd datblygiad y cwrs Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan nodi ei fod yn gwrs gwerthfawr iawn.

Soniwyd bod Hyfforddiant i Fentoriaid yn gynnig newydd ar y gweill sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o'r bryd. Nodwyd mai bwriad y cynnig yw cefnogi gwaith Aelodau trwy annog Aelodau i fod yn Fentor neu adnabod aelodau a fyddai'n elwa o gael eu mentora. Manylwyd mai'r bwriad yw datblygu'r cynllun erbyn cyfnod Etholiadau 2027, er mwyn cynorthwyo Aelodau newydd a gaiff eu hethol.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am 12:00yp.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 24 Chwefror 2026 |
| **Pwnc** | Cefnogaeth i Gynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Annes Sion<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Pwrpas y Tîm Democratiaeth yw darparu cefnogaeth lawn i Gynghorwyr, drwy gefnogi'r gyfundrefn bwyllgorau a bod ar gael i gynorthwyo Cynghorwyr y Sir. Er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu yn cwrdd ag anghenion Cynghorwyr rydym yn holi barn yn gyson.

2. Rydym yn adrodd ar ein perfformiad i'r Aelod Cabinet fel rhan o drefniadau herio perfformiad yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol; ond credwn fod rôl i aelodau'r Pwyllgor hwn dderbyn diweddariad o berfformiad a chael cyfle i leisio barn ar waith y tîm.

3. Mae'r Tîm Democratiaeth yn awyddus i fod yn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu felly anfonwyd holiadur bodlonrwydd i'r Cynghorwyr ar ddechrau mis Ionawr, 2026. Roedd yr holiadur yn gofyn am adborth ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Democratiaeth o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.

4. Yn ychwanegol i'r holiadur bodlonrwydd eleni, bu i ni anfon holiadur am y Fewnrwyd Aelodau, Cyfathrebu ac Hyfforddiant. Ein gobaith drwy anfon yr holiadur oedd cael syniad o wir ddefnydd y fewnrwyd ac os yw'r dulliau cyfathrebu sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn ddefnyddiol. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar yr ymatebion i'r ddau holiadur.

5. <u>**Holiadur Bodlonrwydd:**</u>

   Derbyniwyd 27 o ymatebion, oedd yn llai na'r cyfartaledd sydd wedi ei dderbyn dros y blynyddoedd diwethaf, ond efallai fod cyfnod prysur gyda chyfarfodydd arbennig o'r Cyngor Llawn a Phwyllgor Craffu wedi arwain at lai yn ymateb. Er hyn derbyniwyd amryw o sylwadau gan Gynghorwyr am eu barn am wasanaeth y Tîm Democratiaeth.

6. Nododd 88% fod y gwasanaeth yn "dda iawn" gyda 11% yn nodi "da". Mae hyd yn gynnydd o'r llynedd pan nododd un Cynghorydd fod y safon yn dderbyniol.

7. Roedd rhai o’r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bodlonrwydd uchel iawn, gydag argaeledd a phrydlondeb ymateb y tîm yn cael ei amlygu a chryn dipyn o glod am broffesiynoldeb a chyfeillgarwch. Fe amlygir hyn yn rhai o’r sylwadau isod:

“*Mae'r tîm yn darparu lefel uchel o broffesiynoldeb ond bob amser gyda sylw cyfeillgar”*

*“Rwyf yn falch iawn o'ch cefnogaeth fel aelod. Rydych bob amser ar gael i helpu”*

*“Papurau pwyllgorau yn cyrraedd yn amserol. Y pwyllgorau eu hunain yn rhedeg yn effeithiol. Bob tro rwyf wedi gofyn am gyngor, neu unrhyw ymholiad, dwi wedi cael ateb yn brydlon”*

8. Mewn ymateb i’r cwestiwn oedd yn holi os oedd yna unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi Cynghorwyr ymhellach yn eu rôl nododd y mwyafrif nad oedd angen unrhyw ddatblygiad na newidiadau.

9. Nododd un Aelod y “byddai cael gwybodaeth gyfredol a chywir ar safle y cyngor i gynghorwyr am enwau staff pob adran a rhif ffôn yn ddefnyddiol”. Mae’r sylw hwn yn bwydo i mewn i’r ail holiadur am y fewnrwyd aelodau, ac mae’n sylw sydd wedi ei amlygu fel gwaith pellach sydd angen ei wneud i sicrhau fod y wybodaeth yn gyfredol.

10. Yn ychwanegol at hyn, bu i un Aelod gynnig y syniad o ddyblygu Ap, byddaf yn cysylltu â’r unigolyn i weld beth fyddai cynnwys yr ap gan nad oes gwybodaeth bellach yn rhan o’r ymateb.

11. Mynegwyd rhwystredigaeth am oedi mewn ymateb gan Swyddogion ac Adrannau o fewn y Cyngor, ond fel y gwyr nifer ohonoch mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol i edrych mewn manylder ar y mater. Gobeithir y bydd adroddiad pellach ar y gwaith hwn yn dod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn ystod tymor yr haf.

12. Ni dderbyniwyd sylwadau negyddol nac awgrymiadau pellach.

13. Yn ychwanegol i’r holiadur bodlonrwydd electroneg sy’n cael ei yrru at Gynghorwyr unwaith y flwyddyn, byddwn yn ceisio ail afael yn ein trefniadau i gynnal sgwrs un i un gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy’n cael ei gynnig a chael gwell dealltwriaeth o’r rhwystrau i Gynghorwyr.

14. Ar y cyfan, rhaid nodi fod y canfyddiadau’n dangos safbwynt cadarnhaol iawn o’r gwasanaeth mae’r Tîm Democratiaeth yn ei gynnig, gyda chlod arbennig yn cael ei wneud i’r ymatebion prydlon, trefniadau pwyllgorau a chefnogaeth o ansawdd.

15. <u>**Mewnrwyd Aelodau**</u>

Bu i nifer ychydig yn is ymateb i'r holiadur am y fewnrwyd aelodau, gyda dim ond 20 o aelodau yn ymateb. O'r 20 bu i 19 nodi eu bod yn defnyddio'r Fewnrwyd yn "aml" neu "weithiau", gydag un yn unig yn nodi nad yw yn ei ddefnyddio o gwbl. Pwysleisiodd yr unigolyn nad oedd "*yn ei ddeall a hefyd yn aml nid yw'n gweithio i mi".* Mae hyn yn amlygu'r angen i ystyried y posibilrwydd o gynnal hyfforddiant sylfaenol i rai unigolion er mwyn iddynt allu gwneud gwell defnydd o'r fewnrwyd.

16. Amlygwyd y tudalennau a ganlyn gan Aelodau fel rhai sy'n cael eu defnyddio'n aml:
    - Manylion Cyswllt Swyddogion
    - Hunanwasanaeth
    - Newyddion
    - Hyfforddiant ar lein
    - Gwybodaeth am ward ac adrannau penodol.

17. Mynegwyd nad oedd unrhyw elfennau ar goll o'r fewnrwyd ond fod y wybodaeth yn gallu bod wedi ei ddyddio. Nododd rhai yr angen am restr fwy cyfredol a chyflawn o staff. Nododd un aelod ""*Rwy'n troi at y rhestr bob dydd ond nid yw'n gyfredol nac yn gyflawn… dylai'r rhestr gael ei diweddaru'n amlach.*"

18. Amlygwyd problem o ran dwyieithrwydd y fewnrwyd, gan fod rhai bylchau yn rhy fach ar gyfer testun dwyieithog. Nodwyd hefyd yr angen i'r tudalennau fod yn symlach. Roedd hyn yn broblem a oedd yn codi gyda'r Bwletin Aelodau yn ogystal.

19. O ran cyfathrebu trwy'r Bwletin Aelodau, bu i'r mwyafrif llethol nodi eu bod yn darllen y bwletin "bob wythnos" neu "weithiau", gyda'r un unigolyn yn nodi nad oedd byth yn ei ddarllen. Bu i'r mwyafrif nodi fod amlder presennol o gyhoeddi'r bwletin yn iawn a bod "unwaith yr wythnos yn ddigon".

20. Nodwyd fod y mwyafrif yn fodlon a'r cynnwys o ran Newyddion y Cyngor, Ymgynghoriadau, hyfforddiant ac y buasent yn hoff o gael cael "cipolwg ar amcanion y dyfodol".

21. A'r cyfan, nodwyd fod y Bwletin yn ddull syml, clir a defnyddiol o rannu gwybodaeth.

22. Wrth ateb cwestiynau am hyfforddiant, nodwyd fod hyfforddiant yn bwysig iawn, a bod digonedd o gyfloed dysgu ar gael. Gan fod y gwasanaeth yn creu holiadur bodlonrwydd penodol am hyfforddiant dim ond ychydig gwestiynau oedd yn rhan o'r holiadur hwn,

23. I grynhoi'r ymatebion i'r holiadur amlygir fod defnydd eang yn cael ei wneud o'r Fewnrwyd gan yr unigolion a ymatebodd. Pwysleisiwyd mai rhifau ffôn cyswllt staff yw'r elfen bwysicaf, ond fod rhwystredigaeth gan nad yw'r dudalen yn gyfredol. O ran y Bwletin Aelodau, nodwyd ei fod yn

adnodd defnyddiol sydd yn cael ei ddarllen yn rheolaidd a derbyniwyd canmoliaeth am y cynnwys.

24. Bydd ymatebion i'r holiaduron yn cael eu defnyddio dros y flwyddyn nesaf er mwyn datblygu a sicrhau fod yr adnoddau angenrheidiol yn ei le, ac wedi ei ddiweddaru cyn Etholiad 2027.

**Argymhelliad**

25. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **24 Chwefror 2026** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2026/27** |
| **PWRPAS** | **Argymell y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27 i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu** |
| **AWDUR** | **Annes Sion**<br>**Arweinydd Tîm Democratiaeth** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2026/27 er eich sylwadau cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 5ed o Fawrth, 2026.

1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Noder fod her benodol eleni wrth lunio'r calendr cyfarfodydd. Mae'r cylch pwyllgorau traddodiadol wythnos yn hwyrach yn cychwyn na'r arfer yn sgil etholiadau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y bydd 'cyfnod cyn etholiad' unwaith eto ddiwedd 26/27 cyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027. Rydym wedi ceisio cadw llygad ar hynny gan gywasgu rhai o'r pwyllgorau i gyfnod llai, hynny yw o fewn 10 mis. Ystyriwyd cyfarfodydd craffu, gan geisio eu cynnal yn gynt yn y cylch pwyllgorau er mwyn sicrhau na effeithir ar y gwaith y gellir ei gyflawni.

1.5 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau hyd y gellir nad oes gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd rhanbarthol megis cyfarfodydd Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, er nad yw holl ddyddiadau 2026/27 yn wybyddus eto. Rhaid hefyd cadw mewn cof fod mwy o gyfarfodydd rhanbarthol gan Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd bellach.

1.6 Ymgynghorwyd yn ogystal gyda'r Awdurdod Tan ac mae addasiadau wedi ei gwneud i rai dyddiadau er mwyn ceisio osgoi gwrthdaro o ran dyddiadau. Nid oedd modd i ni addasu pob dyddiad yn anffodus, ac mae gwrthdaro ar ddau ddyddiad sy'n effeithio'r Pwyllgor Cynllunio.

1.5 Rydym wedi parhau i nodi dyddiad Sesiwn Briffio i Aelodau pob mis yn ogystal â Diwrnod Hyfforddiant misol, fel bod y Cynghorwyr yn cael digon o rybudd am y dyddiadau. Mae'r trefniant newydd i weld wedi gweithio dros y flwyddyn a fu, gyda gwaith o adnabod a blaenoriaethu sesiynau hyfforddiant yn digwydd yn gyson. Hoffwn dynnu eich sylw nad oes sesiwn briffio na hyfforddiant wedi ei raglennu ar gyfer mis Mai, mae hyn oherwydd yr angen i flaenoriaethu pwyllgorau mewn cyfnod byr iawn o amser. Byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i geisio trefnu'r Sesiynau Briffio neu Hyfforddiant ar y dyddiadau hynny lle bo modd, gan nodi fod posibilrwydd i orfod gwyro i ddyddiadau eraill petai hyfforddwyr neu swyddogion allweddol ddim ar gael.

## 2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2026/27

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2026/27

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27.

| **2026/27** | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** *(H)* | pm | 14* | | 2 | | 24 | | | 3 | | | 4 | | 20* |
| Cabinet *(H)* | pm | 19 | 9 | 7 | | 15 | 13 | 10 | 8 | 26 | 16 | 9 | 13 | |
| Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi *(H)* | am / pm | | 18 | | | | 8 | | 10 | | 18 | 16 | | |
| Pwyllgor Craffu – Cymunedau *(H)* | am / pm | | 11 | | | | 1 | 19 | | 28 | | 18 | | |
| Pwyllgor Craffu – Gofal *(H)* | am / pm | | 4 | | | 17 | | 5 | | 21 | | 11 | | |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | am | 21 | | 9 | | 29 | 22 | | | | 4 | | 15 | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | pm | | 16 | | | | | 3 | | | 23 | | | |
| Pwyllgor Cynllunio *(H)* | pm | 18 | 15 | 13 | | 7 / 28 | 19 | 16 | 14 | 18 | 15 | 8 | 19 | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | am | | 22 | | | 21 | | 30 | | | | 1 | | |
| Pwyllgor Safonau | am | | 8 | | | | | 2 | | | 22 | | | |
| CYSAG | pm | | 30 | | | | | 17 | | | 2 | | | |
| Pwyllgor Iaith | am | | 29 | | | | 5 | | | | 1 | | 5 | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | am | | | 16 | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | am / pm | 22 | | 10 | | 11 | 16 | 13 | 11 | 29 | 26 | 19 | 23 | |
| Pwyllgor Pensiynau | pm | | | 6 | | 14 | | 23** | | 25 | | 15 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | yr hwyr | | | | | | 20 | | | | | | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | yr hwyr | | | | | | | 3 | | | | | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | pm | | | | | | | 17 | | | | | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | pm | | | | | | | 24 | | | | | | |
| Hyfforddiant Aelodau | am / pm | | 3 | 1 | | 2 | 7 | 4 | 2 | 13 | 17 | 10 | 14 | |
| Sesiwn Briffio | pm | | 17 | 15 | | 30 | 21 | 18 | 16 | 27 | 24 | 17 | 21 | |

*Cyfarfod Blynyddol.

**Pwyllgor Pensiynau (am) / Cyfarfod Blynyddol (pm)

*(H)* = Cyfarfod hybrid (aml-leoliad)

Amser cyfarfod (yn ôl yr angen) **am** – bore **pm** – prynhawn **am/pm** – trwy'r dydd

**Dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 26 Chwefror 2026 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Mari Edwards, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad |

**1.0 TROSOLWG**

1.1 Mae **8** teitl sydd yn hyfforddiant Craidd i Aelodau. Mae'r rhain yn hyfforddiant sydd yn cefnogi Aelodau wrth eu gwaith ac mae anogaeth gryf i chi fod yn eu cwblhau fel **isafswm** er mwyn gallu cyflawni y rôl yn effeithiol.

1.2 Mae anogaeth gyson, ar ffurf e-byst, wedi eu rhannu er mwyn annog yr Aelodau sydd heb gwblhau yr hyfforddiant i fod yn gwneud hynny. Prin iawn yw'r cynnydd yn niferoedd yr Aelodau sydd wedi cwblhau mwy o'r teitlau Craidd ers Chwefror 2025.

1.3 Dyma ddiweddariad ar y niferoedd sydd wedi cwblhau yr hyfforddiant Craidd:

| Teitl Craidd | Niferoedd wedi cwblhau yn Chwefror 2026 | Niferoedd HEB gwblhau |
|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 49 | 20 |
| Cod Ymddygiad | 53 | 16 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 33 | 36 |
| **Diogelu Plant ac Oedolion** | **56** | **13** |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 39 | 30 |
| Gwybodaeth am Bobl | 50 | 19 |
| Rhiantu Corfforaethol | 46 | 23 |
| Trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol (Grŵp F) | 50 | 19 |

1.4 Fel ag y mae pethau yn sefyll ar hyn o bryd, mae 16 o Aelodau wedi cwblhau pob un o'r wyth teitl Craidd, gydag 8 o'r rheini wedi cwblhau yr hyfforddiant yn ystod y cylch etholiadol yma (ers Mai 2022).

Mae 7 o Aelodau heb gwblhau ddim un o'r wyth teitl Craidd. Hyn yn dilyn sawl cais yn gofyn i Aelodau sicrhau eu bod yn cwblhau hyfforddiant a cheisio hwyluso'r drefn, fel a nodwyd uchod yn 1.2.

## 2.0 DYSGU A DATBLYGU

2.1 Er mwyn hwyluso cyfleoedd i Aelodau fod yn cwblhau'r teitlau Craidd datblygwyd adnodd ar-lein i gynnig mwy o hyblygrwydd. Mae recordiadau o mwyafrif o'r teitlau Craidd bellach ar gael Fewnrwyd yr Aelodau. Mae'r adnodd yma yn sicrhau bod pob Aelod yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant ar unrhyw amser.

Os oes unrhyw broblem yn codi wrth fod yn methu a chwblhau'r hyfforddiant wrth ddefnyddio'r adnodd hwn, dylid cysylltu gyda ni yn y gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn i ni allu bod o gymorth a sicrhau bod pob Aelod yn cwblhau'r hyfforddiant.

2.2 Ar y **6ed o Fawrth 2026**, mae sesiwn ychwanegol o'r hyfforddiant **Diogelu Plant ac Oedolion** wedi ei drefnu. Anogir pob Aelod sydd heb gwblhau y cwrs yma neu sydd heb ei gwblhau yn ddiweddar i fod yn mynychu'r sesiwn yma.

2.3 Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar opsiynau ar gyfer Rhaglen Datblygu Aelodau 2026 -2027. Os oes syniadau neu awgrymiadau, gofynnwn yn garedig i gysylltu gyda ni yn y gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Mae'r Rhaglen Datblygu Aelodau yn atodiad i'r ddogfen hon.

2.4 Mae cynnig i Aelodau fod yn derbyn **sgwrs Datblygiad Personol** gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu neu Swyddog priodol arall a fyddai'n cyflawni yr un nod. Pwrpas y sgyrsiau yma yw i roi'r cyfle i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, ac efallai llunio Rhaglen Ddatblygu Bersonol i gwrdd a'u anghenion. Bydd y ddeilliannau o'r sgyrsiau datblygol yma yn caniatáu i ni fel gwasanaeth gynnwys amrediad o feysydd yn ogystal â dulliau/profiadau datblygol. Mae hefyd yn werthfawr i ni wrth lywio'r Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer y dyfodol. Cynigiwyd hyn i'r Aelodau Cabinet yn y lle cyntaf, ac mae'r cynnig bellach yn agored i'r holl Aelodau.

2.5 Mae'r cynnig hyfforddiant Mentora/Cymhelliant a gynhigiwyd yn yr adroddiad diwethaf wedi ei rannu i ddau ran erbyn hyn. Yn gyntaf, mae cynnig i unrhyw Aelod a fyddai'n dymuno i fod yn derbyn sesiynau Cymhelliant neu Fentora i gysylltu gyda ni. Gallwn gael cefnogaeth WLGA i adnabod Cymhellwyr allanol i gefnogi'r gwaith o fod yn Aelod. Yr ail ran yw y cynnig o fod yn hyfforddi Aelodau presennol, sydd yn bwriadu sefyll fel Aelod yn dilyn y cylch etholiadol nesaf ac sydd yn barod i dderbyn hyfforddiant i fod yn Fentor/Cymhellydd er mwyn cefnogi unrhyw Aelodau newydd ddaw yn dilyn etholiadau 2027.

**Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau ar yr hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a chymeradwyo y camau a gynigir.**

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG
# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME
# 2025/26

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu/Must attend**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| Mai 7 May 2025 | (10:00 – 11:00) | Helpu pobl sy'n colli allan – hanfodion budd-daliadau i Gynghorwyr<br>Helping people who are missing out – Benefits basics for Councillors | Rhithiol<br>Virtual | Megan Meeke (Hyfforddiant Welfare Training) |
| Mai 12 May<br>Mai 21 May | (3:00 – 4:30)<br>(2:00 – 3:30) | Hyfforddiant Herio perfformiad Craffu<br>Scrutiny performance training | Rhithol<br>Virtual<br>l | Geraint Owen |
| Mehefin 4 June 2025 | (10:00 – 12:00) | Hyfforddiant Ffordd Gwynedd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>Ffordd Gwynedd training for the Governance & Audit Committee | Wyneb i wyneb<br>Face to Face | Catrin Love |
| Mehefin 5 June 2025<br>Mehefin 16 June 2024 | (2:00 – 3:00)<br>(10:30 – 11:30) | Ymgyrch Ford (Diogelwch Personol Cynghorwyr)<br>Operation Ford (Councillor Personal Safety) | Rhithiol<br>Virtual | Heddlu Gogledd Cymru<br>North Wales Police |
| Mehefin 25 June 2025 | (9:00 – 4:30) | Gweithdy Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar<br>Progressive Community Leadership Workshop | Rhithiol / Virtual | CLlLC / WLGA |
| Gorffennaf 9 July 2025 | (2:00 – 3:00) | Codi ymwybyddiaeth am waith Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)<br>Raising awareness of the work of Gwynedd Consultancy | Rhithio<br>Virtual | Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a YGC / Head of Highways an YGC) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Medi 17 September 2025 (9:30 – 11:30)** | **Grwp 6 : Trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol**<br>**Group 6 Training : Violence against women, domestic abuse and sexual violence** | **Rhithiol**<br>**Virtual** | **Cymorth i Ferched Cymru**<br>**Welsh Womens Aid** |
| Hydref 8 October 2025 (2:00 – 3:00) | Sesiwn codi ymwybyddiaeth ar waith y Tim Cymorth Busnes yn Adran Economi a Chymuned<br>Awareness Session on the work of the Business Support Team within the Economy & Community Department | Rhithiol<br>Virtual | Nia Carys Bowden a Tesni Haf Williams (Economi a Chymuned) |
| Tachwdd 5 November 2025 (10:00 – 12:30) | Hyfforddiant Amddifadu o Ryddid<br>Deprivation of Liberty Training | Rhithiol<br>Virtual | Non Mererid Pugh & Elen Parry |
| Rhagfyr 3 December 2025 (9:30 – 12:30)<br><br>(1:30 – 3:30) | LHDTCRA+ (Cydraddoldeb)<br>LGTBQ+ (Equality)<br><br>Siwrnai Ceisio Lloches : Sesiwn wybodaeth ac ymwybyddiaeth<br>The Asylum Journey : Information Awareness Session | Ystafell Llyfni Room<br>Caernarfon<br><br>Beics Antur, Caernarfon | Adferiad<br><br>Cyngor Ffoaduriaid Cymru \| Welsh Refugee Council |
| Ionawr 7 January 2026 | Rhydd / Free | - | - |
| Ionawr 28 January (10:00 – 1:00) | Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>Global Internal Audit Standards and the Role of the Governance | Ystafell LLYFNI Room<br>Pencadlys y Cyngor<br>Council HQ, Caernarfon | Luned Fôn Jones |
| **Mawrth 6 March (12:00 – 1:15)** | **Diogelu Plant ac Oedolion**<br>**Safeguarding Children and Adults** | **Rhithiol dros Zoom**<br>**Virtual via Zoom** | **Paul Jones** |
| Mawrth 12 March (2:00 – 4:00) | Y Gymraeg yn y Gymuned<br>Welsh in the Community | Rhithiol dros Teams<br>Virtual via Teams | Nia Haf Lewis a Llio Mai Hughes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth 17 March (1:30 – 4:30) | LHDTC+ (Cydraddoldeb)<br>LGTBQ+ (Equality) | Beics Antur, Caernarfon | Adferiad |
| Ebrill 13 April (9:30 – 12:30) | Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Hunan-laddiad<br>Mental Health and Suicide Awareness | Rhithiol<br>Virtual | Meinir Evans, Felin Fach |
| Ebrill 15 April 2026 | Rhydd/ Free | - | - |

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu/Must attend**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles